Cyfres Llanbedr | Rhagfyr, 1930. | Cyf. 30. Rhif 12.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Nadolig Llawen.
Hanes Capeli'r Enwad—
Merthyr Tydfil.
Gweinidogion Merthyr Tydfil.
Seiat y Gwledydd.
Oddiar y Twr.
Maes Llafur am 1931.
Pwyllgor yr Hydref.
Y Pwyllgor Gweithiol.
Yr Hwyr.
Priodasau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

HANES

CYNULLEIDFAOEDD *UNDODAIDD*

SIR ABERTEIFI

(Gyda Darluniau)

GAN

T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

(*Gweinidog Brondeifi a Chae'ronnen ; Golygydd 'Yr Ymofynnydd'*).

Pris 1/-. Trwy'r Post 1/2.

Anfoner archebion (*gyda blaendal*) at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. RHAGFYR, 1930. CYF. XXX. RHIF 12.

Nadolig Llawen.

BYWYD AC ANGAU.

ER geni Crist ym Methlehem,
A ninnau'n arall le,
Daeth i anadlu'n fab ei fam
Fel ninnau awyr ne' ;
Gan gerdded maes a thref fel dyn
A charu Daer a Ner,
A phont rhwng Geni dyn yw Oes
A'i Fynd tu hwnt i'r llen.

Fe ddwedodd Athro Keith ryw air,—
" Dyw oes ond cannwyll gyn,
Fe lysg, fe boera, diffydd hi
A dyna'i diwedd syn."
Does obaith na gwelediad clir
Yn hyn, na hwyl nac iaith ;
Ni feiddiaf ddweyd ei fod yn iawn,
Nac yn anghywir 'chwaith.

Ble mae o'n awr ? Pwy feder ddweyd?
Ac " nid ymddengys nawr."
Fel ef y daethom, felly'r awn,
Gan wylo deigryn llawr ;
Ffarwel i ffydd yn amau dry !
Mae'r agen yn y tô,
Heb arbraw ni obeithia dyn,
A phrofion fyn ers tro.

Ond pam y Gobaith, pam y Dyb ?
A pham y gwanc am Fod ?
Ac oni rydd y Ddaer in' gylch ?
'Yw'n werth gweld Hafau'n dod ?
Nid wyf ar Amser am roi brys
Na bwrw 'mhell y rhwyd,
Ni welaf i nes machlud haul
Yr adwrid draw a gwyd.

Meddyliaf i am Grist fel Dyn,
Fel saer ac Iddew'n awr,
Fel un a ddysgodd bopeth gwir
A phrydferth, gonest, mawr—
Y Dyn ddangosodd ffordd i Ddyn,
Anadlai'r aer fel ninnau :
Testament Bywyd—bywyd hwn,
A'i angau—*Dowt* yr Angau.

Cyf. o gân J.O.L.

Hanes Capeli'r Enwad yng Nghymru.

MERTHYR TYDFIL.

DYLASEM fynd yn ol at Hen Register Plwyf Merthyr (1703—1763) a darllain cwyn hir yr hen ficer Nathaniel Jones yn adeg y Werinlywodraeth. Medrem hefyd droi i'r Episcopal Returns am 1669 a chael addoli ym Merthyr a'r Capten Harry William Thomas (neu dro arall dan yr enw Henry Williams) yn pregethu iddynt ac yn cael trwydded i bregethu 1673. (A gwelir oddiwrth y Clerical Subsidy Return ei fod wedi ymadael o Lantrisant yn 1660—1). Ni thal ail adrodd a ddywedwyd wrth draethu am Hen Dy Cwrdd Cefncoed y Cymer yn YMOFYNNYDD Awst. Nid oes betruster na chyrchai pobl Aberdar, Faenor, Llanthetty, Eglwysilan, Gellygaer a Merthyr dro hir i Gwmyglo. Gwyddys fod Howell Lewis a'i bobl yn addoli'n gynnar ym Mlaencanaid ac mai cynulleidfa Blaencanaid a gymerth lês ar Gwmyglo am 60 mlynedd o 1689 dan 1749.

Nid yw hynyna ond gyda llaw er cael hyd i ben y llinyn rhag iddo ddyrysu.

Gydag apwyntio y Parch. T. B. Evans, myfyriwr o Goleg Caerfyrddin yn weinidog ar Ynysgau y ceir dechrau hanes Eglwys Undodaidd Merthyr.

Fe gauwyd ond odid yr adeg hon yr Undodiaid o'u cartref crefyddol ac o ddarllain am yr ymgyfreithio a'r cau allan a phopeth deellir fod yma leiafrif cryf yn protestio. Awgrymai y Cenhadwr Lyons mor fore a 1811 (Mon. Rep. 1811. P. 683) godi Capel Undodaidd ym Merthyr. Ni wnawd hyd nes eu gorfodi yn ddiweddarach. Cynhaliwyd gwasanaethau gweddol gyson bob bythefnos mewn ystafell fawr a'r Parch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi) yn pregethu. Pan ymwelodd y Cenhadwr Wright a hwy'n ddiweddarach tystiai i'w parch a'u deall gan nodi Merthyr fel un o'r mannau pwysicaf i Undodiaeth yng Nghymru. Er pob cymell, ni adeiladwyd capel yma nes colli ohonynt yr ystafell fawr yn gynnar yn 1820. Daeth gorfod arnynt bellach, apwyntiwyd pwyllgor adeiladu yn cynnwys *Wm. Melbourne Davies* Draper, *Christopher James* Merchant, *Wm. Williams Penyrheol* Wool Manufacturer, *John Lewis* Gent, *Wm. Howells* Innkeeper ("The Patriot"), *David Davies* Draper, *James Davies Rhymney* agent, *Richard Jenkin* Abervan Gent, *Joseph Coffin* Tanner, *Daniel Davies* Currier, *Daniel Thomas* Malster, *John James* Surgeon, William Williams Cyfarthfa, David

Richards Shopkeeper, Wm. Williams Pendarren, *David Williams* Gent, Taliesin Williams (Son of Iolo) Schoolmaster (Secretary). Yr enwau a italeiddiwyd ynghyd a David Jenkin Gent, a William Williams Farmer oedd yr ymddiriedolwyr cyntaf.

Awd ati o ddifrif a chyn pen deuddeg mis agorwyd Capel Undodaidd Twynyrodyn Merthyr, 1821. Er y troi allan o Ynysgau dan godi ac agor Capel Twynyrodyn y Parch. Thomas Evans a ofalai megis am gynulleidfa Merthyr (1814—1821) ac ef a bregethodd yng nghwrdd agor y Capel Newydd.

Yn 1822 apwyntiwyd Dr. David Rees yn weinidog Cyntaf Eglwys Merthyr. Yr oedd yn ddewisiad doeth oherwydd ei fod yn wr ieuanc o fenter ac eto yn bwyllog. Cardi ydoedd wedi ei eni yng Ngharngeifr, Llanllwch-haearn, Awst 10, 1793. Yn gynnar yn ei oes bu'n cadw ysgol yn ardal Llandysul ac yn mynychu Ysgol Dafis Castellhywel fel y gallai. Dywedir iddo fod hefyd yn cynorthwyo Davis Castellnedd am dymor. Yn 1815 aeth i Glasgow (Dr. Williams Scholar) gan ennill yn 1818 M.A. gydag anrhydedd. Gwyddai nad oedd y weinidogaeth yn abl i gadw dyn ac fel moddion cynhaliaeth troes at feddyginiaeth gan raddio fel meddyg (M.D.) cyn sefydlu fel gweinidog yn Nhwynrodyn. Arwyddir yr alwad gan 47 o bobl. Nid oes betruster nad oedd Dr. Rees yn wr wrth fodd calon y gynulleidfa, ond ymhen tair blynedd ymddiswyddodd oherwydd cyfyngu o'r weithred gyfreithiol (Trust Deeds) y bleidlais i danysgrifwyr o chweugain y flwyddyn neu ragor.

Dyma'i gŵyn. "Too much power invested in Trustees * * Two thirds of the trustees have the power to eject him (the minister) independent of, nay it may be, in opposition to the will of a majority or even of all the contributors. Have the contributors the right to name new trustees, when the present trustees are reduced to five? The surviving five have a veto in their choice, which is little short of having the appointment of their successors invested in themselves."

Ymddiswyddodd ar yr 11 o Fedi 1825 ac ymddengys iddo gysylltu ei hun ag Eglwys Cefncoed gan bregethu'n achlysurol a chario 'mlaen fel meddyg ym Merthyr. Erbyn 1832 yr oedd yn ei fedd yn Eglwys Llandyssiliogogo Ceredigion—tebig oherwydd cael ofn mob y Siartiaid a'r gweithio caled.

Ar garreg ei fedd ceir yr ysgrifen,—

"Er Coffadwriaeth am

Y Parch. DAVID REES, M.D., Tredwr

Yn mhlwyf Llangranog a ymadawodd a'r fuchedd hon ar y 4ydd dydd o fis Ionawr yn y flwyddyn 1832, yn 39 mlwydd oed."

Wedi ymddiswyddiad Dr. Rees bu'r Parch. Thomas Evans eilwaith yn pregethu yma ac o Ragfyr 4 hyd Mai 1 gwasanaethid gan y Parch. Dr. Charles Lloyd. Yn 1826 apwyntiwyd y Parch. David John yn weinidog yn Nhwynyrodyn. Nid gŵr dysgedig fel Dr. Rees mohono, ond gŵr di-goleg ond hyawdl, dyn wedi troi a'i enaid ar dân. Aelod o Eglwys Bethlehem, St. Clears ydoedd, a gôf wrth ei alwedigaeth ond wedi diwyllio'i hunan yn dda ac yn bregethwr derbyniol. Ymunodd o galon a mudiad y Siartiaid, collodd ei gynulleidfa a chauwyd y Capel tuag 1847. Bu farw yn 1853 a chladdwyd yng Nghefncoed y Cymer.

Yn 1848 ail agorwyd y Capel i ddarlithiau Cymraeg a Saesneg. Y mae cryn ansertenrwydd parthed cau y Capel a'r achos oherwydd tua 1836—1838 yr oedd y Siartiaid yn ddiwyd ym Morgannwg. Yr oedd y Parch. David John yn weinidog Tynyrodyn yn 1846, a dywedir ei fod adeg ei farw yn 1853 wedi ymddiswyddo ers blynyddoedd am fod ei iechyd yn fregus.

Beth bynnag am hyn fe geir nodyn yn llythyron Gellionnen Medi 5, 1835, fod J. James yn barod i sefydlu yn Nhwynrodyn pe symudid o'r Weithred yr hyn y cwynai Dr. Rees o'i herwydd gynt. Os felly yr oedd David John ar fygwth ymadael neu wedi ymadael yr adeg honno. Y mae'r cyfan yn dywyll ond fe'i hail agorwyd o leiaf yn 1848 dan ofal y Parchn. Titus Evans ac Owen Evans. Erbyn 1850 yr oedd yma weinidog sefydlog ond dro hir rhyw fynd a dod yr oedd y gweinidogion.

Nid oedd hyn mwy na'r Trust Deeds yn hyrwyddo llwyddiant yr achos. Y mae'r llaw farw wedi gafael rywsut ynghyfansoddiad yr Eglwys ac ni cheir gwared ohoni ar fyr. Gwan a difywyd yw'r achos. Y mae'n anodd esbonio pam. Y mae Eglwys Merthyr fel llawer Eglwys arall yn gwanychu. Sicr fod yna ryw esboniad neu reswm a chredaf y buasai'n werth i ryw gymdeithas neu gilydd i "edrych i mewn" er gweld onid oes yna fwy na llond dwrn o Undodiaid ym Merthyr.

O.

RHESTR O WEINIDOGION TWYNRODYN MERTHYR.

Y Parch. Thomas Evans, Aberdar	1814—1821
Codi'r Capel — 1821	
David Rees, M.A., M.D....	1821—1825
Thomas Evans a Jenkin Rees	1825
Dr. Charles Lloyd	1826
David John	1826—18(47?)
Cau'r Capel.	
Titus Evans	1848—1849
Peter Livingstone	1849—1850
Geo. Calbraith Lunn	1851—1855
Frank Harrison Hill, B.A.	1856—1857
William Wynne Robinson	1858—1860
Nestor Rayson Williams	1860—1894
David John Williams	1895—1906
Supplies	1906—1915
David Cellan Evans	1915—1916
Supplies	1916—1920
Evan Thomas Evans	1920—1925
Supplies	1925—?

O.

Seiat y Gwledydd.

AR gais y Golygydd bwriadaf ysgrifennu tair llith ar Gyngrair y Cenhedloedd neu Seiat y Gwledydd. Y tro hwn ymdrafodaf ag

ELFENNAU RHAGARWEINIOL:

Dechreu hanes Ewrob tuag amser sylfaenu dinasoedd rhydd Groeg tua'r nawfed ganrif cyn Crist. Yr oedd pob dinas yn weriniaeth ynddi ei hun, heb un gorfodaeth oddiwrth un ddinas arall. Nid oedd yr un awydd am undeb rhyngddynt. Gwell oedd ganddynt eu hannibyniaeth, ond pan fygythid hwynt gan ymosodwyr, gwneid rhyw fath ar gytundeb rhyngddynt, ond fynychaf yn rhy ddiweddar. Er eu bri a'u gallu mewn athroniaeth a chelf machludodd eu disgleirdeb am nad oeddent wedi dysgu'r ffordd i gydweithio.

Yn fuan ar faes hanes wele Rufain Ymerodrol yn codi, a'i phen arglwyddiaeth milwrol yn gorfodi heddwch drwy'r holl fyd, ond darfu hithau yn ei thro mewn penbleth didrefn a'r llwythau gorthrymedig yn gwrthryfela yn ei herbyn ac yn erbyn ei gilydd.

Wedi machlud o haul Rhufain daeth trefn Gristnogol y Canol Oesoedd. Saif y drefn hon ar ddau beth, Yr Ymerodraeth a'r Babaeth. Roedd Ymerawdwr yr Ymerodreath Sanctaidd Rufeinig yn ben llywydd ar y gwledydd Cristnogol. Ar y llaw arall yr oedd y Pab yn ben ar yr Eglwys Gristnogol.

Yn yr amseroedd hyn gellid disgwyl fod yna heddwch a dylanwadau daionus yn ben, ond fel arall yr oedd. Er i lawer o ddylanwadau Cristnogol wneud eu hol ar fywyd y bobl, ar y cyfan methiant o ran gwleidyddiaeth a chrefydd fu trefn y Canol Oesoedd. Roedd y bobl yn gaeth yn feddyliol a chymdeithasol.

Yn ystod y Dadeni, pan ail ymaflwyd yn nhrysorau gwybodaeth Groeg, a chyda dechreuad Protestaniaeth, teimlai'r gwledydd eu bod yn genhedloedd eu hunain a'u Brenhinoedd yn bennau ar frenhiniaethau eu hunain, heb orfod talu teyrnged i unrhyw ymerawdwr. Credai y bobl hefyd yr un fath am eu crefydd. Cawsant yn y Testament Newydd drysordy gras, heb orfodaeth politicaidd—grefyddol y Babaeth.

Tua'r amser hwn ganwyd y cenhedloedd fel y maent yn bresennol. Fel yn yr amseroedd gynt, ymrafael ac ymryson byth a beunydd oedd y canlyniad. Bron yn ddidor hyd y presennol nid yw hanes ond gorymdaith erchyll o un maes gwaedlyd i'r llall.

Araf y dysg dynoliaeth y wers i gydweithredu er hyrwyddo ei llwyddiant.

Tua dechreu'r ganrif ddiweddaf gwawriodd oes y darganfyddiadau, ac effaith mawr yr oes hon yw cynnydd mewn masnach rhwng-wladwriaethol. Daeth y gwahanol wledydd i ddibynnu fwyfwy ar ei gilydd gan ddwyn y pell yn agos. Yr oedd Cesar pan ym Mhrydain yn derbyn cenhadon a negeseuau o Rufain wedi taith gyflym o ddeng niwrnod. Pan alwyd Sir Robert Peel yn ol i fod yn Brif Weinidog, ac yntau ar ymweliad a Rhufain, yn 1834, cymerth ddeng niwrnod, ond gydag awyrlong yn bresennol gwneir yr un daith mewn deng awr, neu wyth awr a deugain gyda'r tren.

Achosodd cynnydd masnach rhwng wladol awydd am fwy o gyd-ddealltwriaeth, ac o bryd i'w gilydd cafwyd cynhadleddau ar faterion rhwng-wladwriaethol. Tua'r flwyddyn 1813 nid oedd bosibl trefnu cydweithrediad rhwng y gwledydd mewn materion o fasnach, ond erbyn 1913 yr oedd yna tua thri-ar-ddeg-ar-hugain o undebau rhwng-wladwriaethol.

Yr Undeb mwyaf adnabyddus yw Undeb y Post (Postal Union). Drwy gynllun yr Undeb cytuna yr holl fyd gwareiddiedig i gludo llythyrau ei gilydd ; pob gwlad i fod yn gyfrifol am drosglwyddo llythyron i'w mannau priodol o fewn ei chyffiniau ei hun, a gellir anfon llythyr i estron wlad o un pegwn i'r llall am ddwy-geiniog a dimai. Cyn yr undeb yr oedd y cyfan yn ansicr, araf a chostfawr.

Mynych tua dechreu'r ganrif ddiweddaf dioddefai Ewrob drwodd a thro oddiwrth glefydau megis y frech wen, y Pla a'r Geri Marwol. Gwelwyd ei fod yn angenrheidiol cymryd mesurau i'w cadw allan, a chan fod yna gymaint o dramwy rhwng y gwahanol wledydd, rhaid oedd i bob gwlad gymryd yr un mesurau. Hyd yn oed ar hyn o bryd ceir rheolau iechyd " quarantine " wedi eu mabwysiadu gan fwyafrif o genhedloedd y ddaear. Gellid enwi llawer yn rhagor o engreifftiau i'r un perwyl.

Ond er yr holl undebau a'r cytundebau, nid oedd modd cytuno i beidio rhyfela. Pe byddai rhyw ffordd drwy lŷs neu gynhadledd i drefnu materion amheus â pherigl rhyfel ynddynt, pwy a wyr na fyddem wedi gochelyd yr Armagedon fawr.

Os dysg y brofedigaeth fawr ni i gytuno peidio a rhyfela, yna efallai, fod gwir yn y gosodiad mai "Rhyfel i derfynu Rhyfel" oedd. Dyna yw amcan Seiat y Gwledydd.

B.D.

Oddiar y Twr.

MATER y gwastreffir cryn dipyn o amser yn yr ymdrafodaeth o hono yw'r pwnc o " Undeb yr Eglwysi ;" ac er pob ymdrafodaeth, nid ymddengys bod un gobaith y deuir i unmath ar gytundeb parthed iddo yn fuan. Yr anhawster—o leiaf, un anhawster—yw mai undeb y blaidd a'r oen yw'r unig undeb a fodlona'r rhan fwyaf o Eglwysi—yn enwedig yr Eglwysi Esgobaethol—ei weld.

* * *

Ni fyn yr Eglwys Babaidd un undeb ond ar un amod, sef, dychwel o bob enwad yn grynswth a di-amodol i'w mynwes. Fyn yr Eglwysi Esgobaethol yn Lloegr a Chymru un undeb arall ond undeb dychwel o bob enwad i'w mynwes hithau. Iaith y Pabydd yw : " Nid yw ond gwastraff ar amser a gwastraff ar bopeth arall

i siarad am undeb. Pwy bynnag a fynno undeb, deued yn ol i'r Eglwys—i'n Heglwys ni—a ni a'i croeshawn yn galonnog. Dyna'r unig undeb posibl i ni." Iaith gyffelyb ydyw eiddo rhan fawr—y blaid Babyddol—o'r Eglwysi Esgobaethol yn Lloegr ac yng Nghymru ; nid oes undeb ond undeb dychwel i'w deadell hwy.

* * *

Mewn llythyr o'i eiddo yn un o'r papurau dyddiol ychydig ddyddiau'n ol, gesyd un o Broffeswyr Coleg Llanbedr y safle allan mewn gole a anwybyddir yn ormodol yn yr ymdrafodaeth ddiderfyn. Dyma'i eiriau : " Deil yr Eglwys (yr Eglwys Esgobaethol) aml i athrawiaeth ac arferiad a gasheid gan Ymneilltuwyr hyd yma. Nid yr Eglwys sydd wedi cyfnewid. Bu hi'n ffyddlon i'r athrawiaethau a'r arferiadau hyn o ddechreu'i bod. Ymadawodd Ymneilltuwyr o'r Eglwys, nid yn gymaint am y rheswm y cashaent ei chysylltiad â'r Wladwriaeth ag am y rheswm y cashaent athrawiaethau ac arferiadau'r Eglwys." Yna, sylwer ar ddiweddglo'r llythyr : " Os ewyllysia'r Ymneilltuwyr uno â'r Eglwys yng Nghymru, rhaid iddynt ddysgu caru'i threfniadaeth a'i hathrawiaethau, a dychwel o honynt i'w mynwes heb ofyn iddi roddi i fyny y pethau a ydynt anhepgorol i'w chymeriad a'i bodolaeth. Oddieithr y gallant wneuthur hyn, gwell ydyw iddynt aros y tu allan iddi." Ni fedr neb fethu â deall safle'r Proffeswr oblegid un aneglurdeb iaith. Ac nid annhebig ydyw na ddyry fynegiad i feddwl y mwyafrif mawr o Eglwyswyr.

* * *

I'r Proffeswr, os na ddeallwn ei safle, yr unig Eglwys a haedda'i galw'n Gristionogol yw'r Eglwys Esgobaethol ; ei hathrawiaethau hi yw'r gwir athrawiaethau Cristionogol ; ei threfniadaeth hi yw'r unig drefniadaeth Gristionogol ; ac nid Cristionogaeth dim y sydd tu allan i'w chaerau. Cydnabyddwn onestrwydd y Proffeswr, eithr braidd y mae angen dywedyd ein bod ymhell iawn o fedru cydsynio â'i safle. Credwn, yn hytrach, y gesyd y Deon Inge y mater allan mewn gwedd mwy cywir a rhyddfrydig pan ddywed : " Nid enw ar sefydliad a lywodraethir gan Esgobion yw'r Eglwys Gatholig. Y mae'n wasgaredig trwy'r hollfyd, tan amrywiol fanerau ac mewn amrywiol wisgoedd. Yn bresennol, nid yw ei huniad (tan un faner) nac yn ddisgwyliadwy nac yn ddymunadwy." Yn ol y Deon hefyd, ni fedr y rhai a gaeant eu hunain tu ol i gaerau o'u dyfeisiad eu hunain rwystro'r llu o geiswyr am y gwir rhag gweithio allan broblemau ein dyddiau yn ol gole'n dydd ni, hyd oni'n dyger tan ufudd-dod Crist. I'r un Eglwys y perthyn y ddau—y Proffeswr a'r Deon ; eithr amlwg yw y try'r ddau eu golwg

i gyfeiriadau tra gwahanol i'w gilydd. Yn unrhyw achos, os ydyw gwir Undeb yr Eglwysi i ddod yn ffaith rywbryd, trwy arferiad o ysbryd mwy rhyddfrydig y Deon y daw, ac nid trwy eiddo'r Proffeswr.

* * *

Wedi'r cyfan a ddywedir, ydyw undeb corfforol yr Eglwysi yn ddelfryd ymarferol. Nac ydyw—nid yw'n ymarferol; nid yn unig nid yw'n ymarferol, nid ydyw ychwaith yn beth i'w ddymuno; a gwastraff amser ydyw pob ymdrafodaeth o hono. Yr unig undeb ymarferol a dymunadwy ydyw undeb ysbryd ac amcan. Yr un ydyw gwir amcan pob Eglwys, nad beth ei chredo a'i ffurf; yr un yw'r ysbryd a ddylai lywodraethu pob Eglwys—ysbryd cariad Crist. Dalied pob Eglwys afael dyn yn a dybia hi'n wirioneddau Cristionogol, glyned pob Eglwys wrth y ffurfiau a farno'n oreu; yr un pryd, ymddyged pob Eglwys at Eglwysi eraill yn ysbryd cariad, gan ystyried ei gilydd fel catrodau o'r un fyddin tan arweiniad yr un cad-lywydd—y Crist.

D.E.

Adran yr Ysgol Sul.

MAES LLAFUR AM 1931.

SAFON I. (I rai dan 10 oed).

(i) Darllen Cymraeg o unrhyw lyfr cyfaddas i blant.

(ii) Dysgu ar y cof yr Emyn—
Melys rhodio 'nglas y gwanwyn, etc.
Rhif 466 yn y "PERLAU MOLIANT."

SAFON II. (I rai dan 13 oed).

(i) (*a*) Y briodas yng Nghana Galilea.
(*b*) Puro'r Deml.
(*c*) Hanes yr ymddiddan a'r wraig o Samaria.

(ii) Dysgu ar y cof: Ioan iv. 19—24.

SAFON III. (I rai dan 15 oed).

(i) Ioan iii. a iv ; Ateb cwestiynnau syml arnynt.
(ii) Dysgu ar y cof a ganlyn : Ioan iii. 19—21, iv. 19—24.

SAFON IV. (I rai dros 15 oed).

Ioan i.—iv. ; Ateb cwestiynnau syml arnynt, gan ddyfynnu adnodau yn yr atebion.

NODIADAU.

1.—Dydd yr Arholiad : Sadwrn olaf ym mis Ebrill, 1931.
2.—Arholwr : Y Parch. T. L. Jones, Nottage.
3.—Gall unrhyw blentyn, os bydd yn dewis, eistedd yr Arholiad yn Safonau II. a III. ar Lafar, ond os am fathodyn a gwobrau eraill yr Arholiad, yr Arholiad Ysgrifenedig yn unig a gyfrif.
4.—Cymeradwyir i'r Athrawon "Y Bedwaredd Efengyl," Penodau i—xii. Gan J. Morgan Jones, M.A., Bangor. Pris 2/-.

S. E. Bowen, *Ysgrifennydd.*

Pwyllgor yr Hydref.

CYNHALIWYD Pwyllgor yr Hydref ym Mrondeifi, Llanbedr, dydd Mercher, Tachwedd 5. Yn absenoldeb y Llywydd a'r Is-Lywydd penodwyd gweinidog y lle i'r gadair. Darllenwyd llythyrau oddiwrth Lywydd a Thrysorydd y Gymdeithas yn cwyno eu hanallu i fod yn bresennol. Darllenwyd llythyr hefyd oddiwrth Mr. D. Martin Jones, Y.H., Gwion Castle, cyn-Drysorydd y Gymdeithas yn datgan ei ddiolchgarwch am bleidlais o gydymdeimlad ag ef yn ei afiechyd.

Cadarnhawyd Cofnodion y Pwyllgor Blynyddol.

Penrhiw.—Cafwyd ar ddeall gan y Parch. T. Arthur Thomas fod llawer o welliantau wedi eu gwneud y tuallan i'r capel eisoes ac fod y draul hyd yn hyn yn £15 7 0. Pasiwyd fod y Trysorydd yn cael ei awdurdodi i dalu y "grant" o £10 tuag at y gwelliantau hyn i'r Parch. T. Arthur Thomas. Dywedodd Mr. Thomas fod dwy foneddiges wedi ymgymeryd a'r gwaith o gasglu yn ardal y capel er cael arian i adnewyddu ychydig o'r tufewn.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL CYMDEITHAS UNDODAIDD
DEHEUDIR CYMRU.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. OSWALD WILLIAMS, M.A., LLANBEDR.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

— CYFRES LLANBEDR. —

CYFROL 30.

1930.

Llandysul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

CYNNWYS.

Adolygiad, 175.
Anerchiad i Gyn-fyfyrwyr Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, 147.
Arhodiad yr Ysgol Sul, 90.

Bob Lewis, 105.
Bwrw Arfau, 155.

Calan Gaeaf, 219.
Catecism, 133.
Cuwch Cwd a Ffetan, 10.
Cwrdd Dadorchuddio, 190.
Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas, 172.
Cyfarfodydd Chwarterol y Pasg, 110.
Cymanfa Ganu Ceredigion, 136.
Cymanfa Ganu Plant Morgannwg, 137.

Darluniau—
Capel Panteg, 1.
Hen Dŷ Cwrdd, Cefncoed y Cymer, 141.
De Profundis, 46.
Dirgelwch ein Ffawd, 212.
Dolef y Gwynt, 27.
Dr. J. Gwenogvryn Evans, 69.

Ein Pulpudau Gwag, 77.
Er Cof am Mrs. Conwil Evans, 88.
Er Cof am Nhad a Mam, 81.

Gandhi, 65.
Gip, 210.
Gweinidogion—
Abertawe, 206.
Caerfyrddin, 104.
Cefn Coed y Cymer, 147.
Gellionnen, 121.
Merthyr Tydfil, 225.
Panteg, 2.
Penrhiw, 85.
Rhydyparc, 21.
Yr Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr, 147.
Yr Onnenfawr, 41.
Gweledigaeth a Chenhadaeth, 184.
Gwerth Eisteddfod i Ddiwylliant, 73.
Gwir Arwriaeth, 216.

Hanes Capeli'r Enwad—
Abertawe, 201.
Caerdydd, 181.
Caerfyrddin, 101.
Cwmwrdu, 61.
Gellionnen, 122.
Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, 162.
Hen Dŷ Cwrdd Cefn Coed y Cymer, 142.
Merthyr Tydfil, 222.
Panteg, 3.
Penrhiw, 82.
Rhydyparc, 22.
St. Clears, 85.
Yr Onnenfawr, 42.

Lifrau Balch y Byd Ysbrydol, 176.

Maes Llafur yr Ysgol Sul (1931), 229.
Marwgofion, 19, 35, 57, 78, 99, 116, 137, 157, 178, 218, 200,

Nodion o Lan Tawe, 31.
Nodion yr Eglwysi, 20, 38, 59, 79, 100, 119, 139, 158, 179, 198, 200,

Oddiar y Twr, 227.

Pan Gilia'r Niwl, 214.
Priodasau, 18, 35, 98, 116, 157, 218, 200,
Pwyllgor y Pasc, 111.
Pwyllgor yr Hydref, 230.

Seiat y Gwledydd, 225.
Shaffo, 93.
Sibrwd y Dail, 195.

Taith Hynod, 207.
The Idea of God, 153.
Tonau—
Dos a Gweddia, 135.
Llanaber, 200.
Tro i Gwm Mawr Du, 165.

Urdd Gobaith Cymru, 168.
Urdd y Benywod, 96, 194.

Wrth y Tân, 199.

Y Ffordd yr Edrychaf ar Bethau, 6, 28, 50.
Y Gwanwyn, 95.
Ymweliad a Jersey, 150.
Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, 15, 34, 55, 76, 96, 113, 130.
Y Pwyllgor Blynyddol, 173,
Y Pwyllgor Gweithiol, 231.
Yr Hen Gartref, 199.
Yr Hwyr, 233.
Yr Ysgol Sul, 127.
Y Stâr Garreg, 52.

Darllenwyd llythyr oddiwrth y Gymdeithasfa Gyffredinol mewn cysylltiad a chyfieithu rhai o'r llyfrau byrion a gyhoeddir ganddynt hwy i'r Gymraeg. Penderfynwyd gadael y mater i'r Pwyllgor Gweithiol.

Pasiwyd fod Mr. J. R. Thomas i gasglu gyda'r Parch. E. O. Jenkins at Drysorfa'r Myfyrwyr yn ardal Llandysul yn lle Mr. Tysul Davies, yr hwn oedd am ei ryddhau ar gyfrif cyflwr ei iechyd. Os metha Mr. J. R. Thomas, fod Mr. Jenkins i ddewis un arall.

Derbyniwyd adroddiadau parthed y casgliadau at Drysorfa'r Gymdeithas a Thrysorfa'r Myfyrwyr.

Yn ol barn rhai ag oedd yn bresennol nid oedd yr olaf yn gywir nac yn gyflawn. (Y roedd yn gyflawn mor bell ag y daeth yr arian i'm llaw i—ac yn hollol gywir yn sicr—E. O. Jenkins).

Darllenwyd llythyr oddiwrth y Gymdeithasfa Gyffredinol mewn cysylltiad ag apêl o Rydygwin am gynhorthwy i adgyweirio'r capel. Pasiwyd ein bod yn cymeradwyo'r apêl yn gynnes.

Dywedodd y Parch. T. Arthur Thomas fod nifer o gopiau o'r "Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw" yn ei ofal ef. Gofynwyd iddo eu rhannu rhwng Ysgolion Sul y Cyfundeb.

Awgrymodd Mr. Thomas hefyd y byddai'n hwylusdod mawr pe bai pob cynulleidfa'n prynu nifer o gopiau o'r *Perlau Moliant* at wasanaeth dieithriaid ac y byddai hynny'n help i leihau'r ddyled sydd ar y llyfr. Pasiwyd fod yr Ysgrifennydd i drefnu lle cynhaliad y Cyfarfodydd nesaf.

Dywedodd y Parch. S. E. Bowen, yr hwn gymerodd gofnodion y Cyfarfod yn absenoldeb yr Ysgrifennydd, ei fod am ddioleh am bob cydymdeimlad a chynhorthwy a gafodd yn ystod y misoedd y bu'n methu, i weinidogion o'r tu fewn ac o'r tu allan i'r Cyfundeb am lanw ei bulpudau ac i'r Parch. E. O. Jenkins am drefnu pregethwyr.

Y Pwyllgor Gweithiol.

CYNHALIWYD Cyfarfod o Bwyllgor Gweithiol y Gymdeithas yn Ysgoldy Capelybryn nawn Llun, Tachwedd 24, o dan lywyddiaeth Mr. Thomas Davies, o Capelybryn. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresennol: Parchn. D. Conwil Evans, S. E. Bowen ac E. O. Jenkins, ynghyd a chynrychiolwyr o

Giliau, Rhydygwin, Cribyn, Capelygroes. Alltyplaca, Capelybryn, Capelycwm, Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa.

Danfonodd Trysorydd y Gymdeithas air yn cwyno ei anallu i fod yn bresennol a danfonodd y Parch. T. Oswald Williams air i egluro ei absenoldeb.

Mater gafodd gryn sylw oedd y buddioldeb o gael rhai o'r llyfrynnau bychain a gyhoeddir gan y Lindsey Press wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg er gwasanaeth ein hysgolion Sul yn bennaf. Pasiwyd y carem gael y ddwy gyfres o "Questions and Answers on Religion" wedi eu cyfieithu, a'n bod yn awgrymu i'r awdurdodau y byddai o wasanaeth dirfawr i'n hysgolion Sul pe ymgymerent a'r gwaith o ail-argraffu "Holwyddoreg ar fywyd Iesu" gan y Parch. D. Evans, ynghyd a chyhoeddi mewn diwyg Gymraeg "Bible Stories Re-told" gan Brooke Herford neu "The Story of Jesus as told to Children" gan Mary Francis.

Os daw'r uchod o gwmpas pasiwyd ein bod yn gofyn i'r Parch. D. Evans, Cwmiago i ymgymeryd a'r gwaith o gyfieithu. Teimlid y gallesid gwneud a mil yr un o gopiau o'r uchod.

Pasiwyd, os na wel yr awdurdodau eu ffordd i roi y llyfr olaf a enwyd mewn gwisg Gymraeg, ein bod yn gofyn am ganiatad i gyfieithiad o hono i ymddangos o fis i fis yn Yr Ymofynnydd, ac ar ol cyfieithu yr oll fod y cyfieithiad i ymddangos yn llyfryn ar draul y Gymdeithas.

Y Capital Fund.—Credai rhai o aelodau'r Pwyllgor y dylesid ad-drefnu y casglwyr a'r cylchoedd casglu fel ag i beidio gwneud y gwaith yn rhy drwm i'r ychydig. Dyma awgrymiadau'r Pwyllgor: Parch. D. Conwil Evans a Mr. Griffith Davies o'r Llwyn i gasglu cylch Brondeifi a Chaeronnen; y Parch. T. Oswald Williams a Mr. John Evans o Capelygroes i gasglu Rhydygwin a Chiliau; y Parch. S. E. Bowen a Mr. Timothy Jonathan o Giliau i gasglu cylch Capelygroes a Chribyn; y Parch. T. Arthur Thomas a Mr. Richard Davies o'r Llwyn i gasglu cylch Bwlchyfadfa a Llwynrhydowen; y Parch. D. Evans, Cwmiago a Mr. Ewart Evans, Capelygroes i gasglu cylch Alltyplaca, Capelybryn a Chapelycwm. Yn ddifeddwl ymwahanwyd heb benodi un at y Parch. E. O. Jenkins i gasglu cylch Graig a Phantydefaid.

Yn olaf pasiwyd ein bod yn cwyno'r ffaith fod rhai Eglwysi heb gael eu cynrychioli ar y Pwyllgor, a'n bod yn apelio at yr oll o'r Eglwysi am gefnogaeth i'r Pwyllgor Gweithiol.

E. O. Jenkins.

Yr Hwyr.

NID oes a glybu'r hwyr erioed
  Yn tramwy cwm a thalar ;
Ond ni ddaw'r Gwanwyn byth i'r coed
  Na chlywn ei gôr o adar :
Fe gân ei gôr hyd dranc yr haf
Ofid ac ing o'm calon glaf.

Pan fyddo'r haf yn gado'r tir,
  A'i ôl ar dwyn a pherthi ;
A'r dydd yn gado'n gynt, a chynt,
  Fe ddwg ei Leuad Fedi :
Oni chaf glywed cân ei gôr,
Caf olau hon ar faes a môr.

Pan ddiffydd fflam y lleuad bell,
  Fe ddwg ei farrug allan ;
A bydd y cwm a'r afon wyllt
  Tan hud y cwrlid arian ;
Ac yn y pellter clywaf sŵn
" Y Gwdi-hw," a chyfarth cŵn !

O ! pell fo'r hwyr, yr hwyr heb gân,
  A phell fo'r hwyr heb leuad ;
Heb farrug gwyn, heb gyfarth cŵn,
  A dim o sŵn y cread :
A phan fo hwn yn toi fy nydd
Mi wn mai hwyr, mai hwyr a fydd.

Prengwyn. IFAN JONES.

Y Doethion o'r Dwyrain.

NEITHIWR y bum yn dweyd stori y Doethion o'r Dwyrain wrth gynulleidfa fach o dair ac nid oedd y gynulleidfa honno o leiaf yn *oer*, na *minnau ychwaith*. Y mae'n rhaid gwybod llawer cyn medru diddori plentyn ac ateb ei gwestiynnau'n deg. Fe fuasai'n well gennyf bregethu na dal y croes-holi. Mynnent wybod pob dim. Mynnent wybod mwy nag a wyddwn i ac nid oedd hynny yn rhyw gamp fawr. Yr oem wedi bod yn sôn am y Nadolig a chân Cynan,—" Balad y Pedwar Brenin " y

sy'n cynnwys hen draddodiad. Ni welent dro byd sut yr aeth y gem a rowd dros y gaethferch i goron ddrain Iesu, ond o'r diwedd fe welsant fod pob tro caredig i rywun yn dro caredig i Iesu. "Tebig," meddai un o'r ddwy fach, "a phe bai rhywun yn *neis* i ni, fe fyddech chwithau, Daddie, yn teimlo ei fod yn *neis* i chwithau," ac yr oedd wedi taro'r hoelen ar ei chlop. Chware teg iddynt, yr oent yn fy helpu i esbonio. Ni chaf help bob amser.

"Pwy oedd y Doethion te?" meddai'r llall.

Nid ar unwaith y medrir ateb, os o gwbl.

Nid oedd dim amdani ond sôn am ryw wlad bell, Arabia, Somaliland, neu lan môr y Caspian—yr oedd hynny ymhell i'r Iddew. Yno y trigai Doethion, rhyw offeiriaid, neu broffwydi tebig i Dderwyddon y Cymry. Yr oent yn llywodraethu brenhinoedd. Doent ar gamelod dros y Teigris a'r Ewffrates i chwilio am ryw Frenin Newydd. Dywedir fod un yn hen, y llall yn ganol oed a'r llall yn ifanc. Yr oedd yr hên yn fodlon rhoi *aur* iddo os oedd rhyw gymaint o *frenin* ynddo. Rhoer canoloed y *thus* iddo os oedd rhyw gymaint o *Dduw* ynddo. Rhoer ifanc y *myrr* iddo os oedd rhyw gymaint o *feddyg* ynddo ac am ei fod yn teimlo y y buasai'n marw'n ifanc. Aeth y tri, un ar ol y llall, i mewn i'r stabal ac at y preseb. Gwelodd yr henwr, henwr yno, gwelodd y canoloed, wr canoloed yno a gwelodd yr ifanc wr ifanc yno. Wedi dod allan yr oent yn siarad a'i gilydd a phobun yn dweyd a welodd a'r lleill yn ei anghredu. Er torri'r ddadl aethant i mewn gyda'i gilydd a'u rhoddion iddo ond nid oedd yno neb ond baban bach yn gorwedd yn y preseb.

Ni choeliai'r tair mohonof. Yr oedd yn anhygoel er ei fod yn wir. Ni welent fod pob un yn gweld Iesu fel y myn ei weld ond pan awn gyda'n gilydd ato rhyw ysbryd nwyfus, mentrus a chariadus plentyn bach ydyw ysbryd Crist.

"Tut! Tut!" oedd yr Amen a gefais ac nid oedd yn swnio'n galonogol o gwbl.

"Beth roisant iddo?" gofynnent. Yr oedd hyn yn dwyn Santa Clôs i'r meddwl.

Nid oedd gennyf ond mynd ymlaen a dweyd fod Aur yn rhodd werthfawr yr adeg honno fel bob amser. Nid oedd nemor o aur ym Mhalesteina a cheid yr aur o Arabia megis Aur Ophir neu Sheba. Rhoid yr aur iddo fel brenin, yn awgrymu fod y byd yn barod i fyw ei efengyl o werthu pob peth a dyfod ar ei ol ef.

Nid mor hawdd esbonio *thus*. Medrem ddweyd mai rhywbeth yn debyg i sudd coeden ydoedd yn byrlymu allan o'r rhisgl. Pe baent yn hŷn medrwn sôn wrthynt am blant yn mynd i'r allt i grynhoi *resin* a dyna lle byddem ni wedyn yn "enoi rwshing" chwedl 'slawer dydd. Nid oedd gennyf felly ond dangos y resin iddynt a dweyd mai rhywbeth yn debig i *syrup* neu resin ydoedd a'i arogl yn hyfryd dros ben. Defnyddid y thus i arogldarthu a'r neb y sydd wedi bod mewn Eglwys Babyddol a wyr ystyr arogldarth a gwyd fel anwedd neu darth o'r dyffryn o'r allor yno.

Nid oes nemor wahaniaeth rhwng y *thus* a'r myrr er nad oes sierwydd am y myrr. Digon tebig mai rhyw resin ag arogl per iddo ydoedd. Mynnir ambell dro mai balm Mecca ydoedd. Os felly rhyw syrup neu resin gwyrdd ydoedd a'i arogl yn debig i arogl olew rosmari. Fe geid hwn yn Nyffrynnoedd Mecca.

Nid oedd raid ond edrych arnynt cyn deall fy mod wedi mynd yn rhy bell, gan ddod gartref ac awgrymu fod y byd yn fodlon rhoi ei bethau goreu i Iesu - y cantwr yn rho'i lais, y gweithiwr ei waith, y painter ei lun, y bardd ei gân, y plentyn bach ei galon fach—pob un yn rhoi ei oreu i Iesu.

Yr oent yn fodlon.

Ymhen tipyn ceisiais sôn am bobl a oedd yn credu fel y Doethion gynt -Y Parsi neu ganlynwyr Zoroaster. Nid cynt y daeth y gair mawr dros fy ngwefus nag imi edifarhau, oherwydd rhaid oedd esbonio. Nid ant ymhell wrth ffydd a chwarae teg iddynt.

Rhaid oedd troi a throsi a sôn am bobl yn rhoi *spices* (nid oedd angen esbonio spices, yr oedd yn ddigon agos i'r Nadolig) a *phrennau* ag arogl pêr ar y tân sanctaidd. Ni addolent mo'r tân ond rhyw olau rhyfedd ac anweledig y safai y tân drosto. Yr oedd y tân anweledig yn ormod iddynt, a diolchwn i un ohonynt am awgrymu y gellid teimlo'r gwres er heb weld y tân. Nid oeddwn i fy hun fymryn yn well. Dweyd a ddarllenais yr oeddwn ninau.

Yr oedd gan y bobl hyn syniad bach tlws am ddau ysbryd fel dau efell —twins—y Gwell a'r Drwg mewn meddwl, gair, a gweithred. Rhwng y ddau hyn medrai'r doeth ddewis ond nid yr annoeth. Ceisiais ddangos iddynt fod pob un a oedd yn byw yn unol a deddfau y Duw Da yn cynorthwyo yr Ysbryd Gwell. Soniais fod y Duw Da yn caru y rhai a oedd yn helpu yr Ysbryd Gwell gan eu harwain i weld y medrent hwythau yn eu ffordd fach eu hunain gynorthwyo yr Ysbryd Gwell yr ysbryd ffein caredig ac ufudd a oedd yn y galon.

Yr oent ar y foment yn bleidiol i'r Ysbryd Gwell, ond byr yw cof plentyn. Yr oent yn coelio tipyn o'm stori ond o'r diwedd gofynasant "Pam y doent at Iesu?"

Nid oedd gennyf ond awgrymu'n gynnil fod yna lawer o broffwydi a chrefyddau wedi bod cyn Iesu, llawer un wedi ceisio esbonio Duw a'r bywyd goreu, ac fod hanes am y "doethion" yn dod at Iesu yn awgrymu fod yr hen grefyddau yn plygu i ddatguddiad Iesu o Dduw fel Tad. Yr oedd y syniad o Dduw fel Tad yn eu plêso, ac ar bwys hen wyl y Nadolig ceisiais innau arwain fy *noethion* bach—y maent yn rhy ddoeth yn aml i mi—i roi aur a thus a myrr y bywyd bach, ie, rhoi goreu bywyd i Iesu gan eu harwain ato ef ac at Dduw ar bwys y *Cariad* y sy'n byrlymu ynghalon y ddwy.

N. a N.

Priodasau.

Dydd Sadwrn, Awst 30ain, yn Swyddfa y Cofrestrydd, Pontardawe, ymbriododd Mr. Cynlais Joseph, Trebanos a Miss Edith May Jones, Quar Road, Clydach-ar-dawe.

Dydd Mawrth, Hydref 21ain, yn Eglwys Bishopston, o flaen y Rector, a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Mr. Clifford Davies, Bishopston, a Miss Margaret Morgan, Heol Hebron, Clydach-ar-dawe.

Dydd Sadwrn, Tachwedd 8, yn Swyddfa y Cofrestrydd, Abertawe, Mr. David Goronwy Hopkin, Craigcefn-parc, Clydach, a Miss Winifred Williams, Trebanos.

Marwgofion.

Hydref 2, Peter James (Pedr ab Ioan), Tre-Elydr, Llanover, yn 61 oed. Bu farw yn Ysbyty Caerdydd, ar ol bod dan driniaeth law-feddygol. Saer coed oedd wrth ei alwedigaeth a gwir feistr ar y grefft a bu am flynyddau lawer yn saer ar ystad Arglwyddes Llanover (Gwenynenn Gwent) yr hon oedd a'r ymddiriedaeth lwyraf ynddo fel crefftwr ac fel dyn. Cawsom bleser nid bychan wrth ddarllen dwy deyrnged uchel iawn o barch a roid iddo—y naill yn y "Goleuad" a'r llall yn y "Darian." Onibai am ei meithder buaswn yn caru rhoi'r blaenaf fewn ar ei hyd. Cawsom y fraint o dreulio ychydig amser ynghwmni y brawd yma flynyddoedd yn ol a gadawodd argraff hapus ar ein meddwl. Cyfeiria'r "Goleuad" ato fel "y brawd annwyl" a sonia am y gwasanaeth maith ac ardderchog roddodd i'w Eglwys a'i ardal, i'r Eisteddfod ac i'r iaith Gymraeg. Dywed "y Goleuad" fod Mr. James yn gerddor gwych a llais tenor da ganddo a chipiodd lawer o wobrau flynyddoedd yn ol ym mhrif Eisteddfodau y wlad ac am ganu y Delyn Deir-rhes a chanu yr un pryd. "Ai yn aml i dai boneddigion yn y Brifddinas gyda Thelynores Llys

Llanover i ganu pennillion Cymraeg a hithau yn canu y Delyn." Bu ef ac Eos Dâr efo'i gilydd droion—y naill yn chwarae'r Delyn a'r llall yn canu. Bu yn Edinburgh, Dublin a Llydaw yn canu pennillion yng Nghynadleddau'r Pan Celtic. Drwy yr oll "cadwodd ei wisgoedd yn lân a'i gymeriad yn ddilychwyn." Bu'n neillduol ffyddlon yn ei Eglwys, sef yr Eglwys Fethodistaidd Gymraeg. Bu'n arweinydd y gân yno er yn ieuanc ac ers blynyddoedd yr oedd yn Flaenor a Thrysorydd yr Eglwys. Bu hefyd yn athraw medrus ac ymroddgar yn yr Ysgol Sul. Rhagorai hefyd gyda'i grefft. Enillodd nifer o wobrwyon yn yr Eisteddfod Genedlaethol am waith llaw. Claddwyd y Llun dilynol ym mynwent Eglwys y Plwyf Llanover, pryd y cafodd angladd bron anarferol o barchus. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan nifer luosog o offeiriaid a gweinidogion y cylch. Gadawodd i alaru ei golli briod ac un mab. Ei weddw yw Margaret Geinor, merch y diweddar Mr. a Mrs. William Jones, Gelliaur, Llandyssul. Yr oedd hi yn un o ffyddloniaid Eglwys Llwynrhydowen cyn iddi adael yr ardal. Erys yn undodwraig selog o hyd ac mae'n ddarllenwraig gyson o'r YMOFYNNYDD. Estynnwn iddi hi a'i bachgen addawol, ein cydymdeimlad llwyraf.

DYDD Sadwrn, Tachwedd 1af, yn 20 mlwydd oed, May, annwyl briod George Williams, Hafodybryn, Trebanos. Fel y gwelir wrth y pennawd uchod, gwraig ieuanc iawn, a dim ond ugain oed. Pa fodd, a phaham y torrwyd i lawr fywyd megis yn ei wanwyn? Y mae yna lawer adnod a phennod yn nhestament bywyd, nad yw yn hawdd, os yn bosibl, eu deall o gwbl. Ac i ba bwrpas, y mae'n dywyllach fyth. Un o'r rhai hawddgara' a bywioca' yn y cwm oedd yr ymadawedig. Bu hi farw ar enedigaeth ei hail ferch. I bob ymddangosiad, yr ydoedd mor iach ag un o awelon yr haf yn ei fan gore. Ond wedi geni'r fechan, a'r cyfan yn llwyddiant i'r diwedd, a'r fam yn bob peth y gallesid ei ddymuno, dyma newydd trist yn dod i mewn i'r teulu, a phob gwedd wedi troi yn welw a phrudd; a chroesodd y fam annwyl i'r ochr draw cyn pen ond ychydig oriau. A thrawyd y gymdogaeth a syndod mawr! Merch ydoedd hi i Phillip a Catherine Lloyd, o'r un cyfeiriad, cans yno y bu er dydd ei phriodas, ac yno, yn ol ei theimlad y bwriadai aros. Ond, "Nid fy ffyrdd i yw eich ffyrdd chwi." Cymerodd yr angladd le y dydd Mawrth canlynol. A chyn codi bedyddiwyd y fechan, Brenda May, ar arch ei mam, gan y Parch. D. G. Rees, yr hwn a wasanaethodd, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Johns, Trebanos; a chladdwyd wrth Gellionnen. Cafodd hi gynhebrwng parchus gan dorf fawr. Digwyddodd yr oll rhwng y dyddiau Sadwrn a Mawrth. "Ni ellir chwilio allan ei ffyrdd Ef." Ac yma, eto, y mae dwy fach a'u tad unig wedi ei adael i alaru'n drwm ar ol ei briod annwyl. Nerth a fod iddo i ddal i fyny. Rhaid fydd gwneud y goreu eto, a byw, ie, byw er mwyn y marw, a byw er mwyn y byw; a'r cyfan i Dduw'r nef.

TACHWEDD 4, yn 63 mlwydd oed bu farw John J. Davies, Caeronnen, Llanbedr, megis ar amrantiad. Yr oedd wedi bod yn achwyn ym mis Awst oddiwrth ddolur y galon ond tybid ei fod wedi gwella'n weddol iawn. Yr oedd wrth ei waith fel arfer drwy'r bore ac yr oedd wedi dod i'r tŷ ar neges. Wedi aros am dipyn yno dywedodd fod ganddo rywbeth yr oedd angen ei wneud gan y buasai yn y Cyrddau Chwarter ym Mrondeifi drannoeth. Cododd er mynd ond nid cynt yr oedd ar ei draed ac yn cyfeirio am y drws nag y syrthiodd ar ei hyd ar y llawr. Rhedodd ei briod ato gan ofyn iddo beth oedd yn bod a chafodd yr ateb megis o lan yr afon "DOES DIM BYD YN BOD." Ehedodd ymaith gyda'r geiriau heb symud llaw na throed. Tarawyd yr ardal a syndod. Yr oedd yn anghredadwy gan bawb, ond yr oedd yn wir—yn rhy wir. Yr

oedd y cyfaill cywir wedi dianc adref heb gymaint a ffarwelio. Adwaenai pawb drwy'r ardal ef fel amaethwr cyfrifol, fel cymwynaswr parod ac fel cyfaill yn nydd rhaid. Nid oedd ei garedicach na'i barotach yn y cyffiniau. Yr oedd yn barod ar ganol nos a chanol dydd, ac ef oedd *clerc* a chynghorwr ardal eang. Bu rai blynyddoedd yn aelod o'r Cyngor Sir a chymerai ddiddordeb yng ngwaith y cynghorau. Cerddai'n gyson i Gaeronnen ar y Sul ac ni chredaf iddo fod yn absennol hanner dwsin o weithiau yn ystod y pymtheg mlynedd y bum i yma. Y mae'r hen gyfeillion yn mynd o un i un. Y mae'r ddwy gynulleidfa bron a newid yn llwyr yn fy nghof i, ond dyma'r ergyd trymaf i Gaeronnen. Y mae ei *phen* wedi'i gwympo ac os cafodd eglwys fach ddyrnod erioed, Caeronnen heddiw ydyw honno. Mewn gair ef oedd ei "llaw ddehau" ymhob peth. Y mae wedi mynd, ac ofnadwy yw'r bwlch. Diolch am gael ei adnabod. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent y Capel a garai mor fawr. Gwasanaethwyd yn yr angladd anghyoedd gan y Gweinidog. Gadawodd weddw, un mab a thair merch, dau frawd a chwaer i alaru am briod gofalus, am dad tyner a brawd caredig. Y mae hen Eglwys Caeronnen ac ardal eang yn rhwym gyda'i deulu yn eu hiraeth a'u galar.

Bore Sul, Tachwedd 9, Tom, annwyl briod Hannah Evans, Penrhiw, Pontsian, yn 46 oed. Gadawodd mewn galar briod, dau fab, rhieni, brodyr a chwiorydd a nifer luosog iawn o berthynasau eraill a chyfeillion. Flynyddoedd lawer yn ol bu o dan driniaeth law-feddygol yn Abertawe. Gwellhaodd am dro ac yna dechreuodd waelu wedyn. Gwaelodd yn raddol am flynyddau ac wedi i'r poenau fynd yn ddrwg iawn penderfynodd—yn gynnar yr Haf diweddaf—i fynd dan driniaeth eto. Yn anffodus yr oedd y dolur wedi gafaelyd yn rhy dyn a doedd dim am dani ond dod adref i ddihoeni a dioddef, a druan o hono dioddefodd boenau dirfawr ond dioddefodd yn hynod foddlongar a diduchan. Yr oedd sefyll yn ymyl ei wely weithiau a meddwl am ei boenau yn dod a loes i galon. Bu ei briod yn ffyddlawn iawn iddo yn ystod ei gystudd maith. Cwynir ei golli gan lawer. Yr oedd Tom yn weithiwr egniol a gonest; rhoddai ddiwrnod da o waith am ei gyflog. Rhaid oedd bod wrthi hefyd yn ei oriau hamdden—wrthi yn cymhenu yn y tŷ, o gylch y tŷ ac yn yr ardd. Nid oedd dim yn ormod ganddo i'w wneud dros ei deulu. Un o nodweddion amlycaf ei fywyd oedd ei barodrwydd i wneud cymwynas. Y dydd Iau canlynol claddwyd ei weddillion ym mynwent Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, J. Jenkins (E.), a T. Arthur Thomas.

Yr 11eg o Dachwedd, yn 3, Railway Terrace, Llandilo, ar ol cystudd byr—tua phum wythnos—bu farw Elizabeth Jones, yn 56 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Thomas a Margaret Jones, Caerfoel, ger Cribyn. Bu mewn gwasanaeth yn Falcondale ger Llanbedr am dymor hir, ar ol hynny yng nghymdogaeth Llandilo. Yn ddiweddar ymneilltuodd o wasanaeth, ac aeth i fyw i'r cyfeiriad uchod, gyda'r gobaith o gael treulio y gweddill o'i bywyd yno, eithr torrwyd hi i lawr yn annisgwyliadwy iddi hi a'i theulu. Gadawodd i alaru ar ei hol bedwar brawd, pedair chwaer, a pherthynasau eraill. Cludwyd ei gweddillion y dydd Llun dilynol i fynwent Eglwys Llanwnnen, y cynhebrwng yn anghyoedd. Gweinyddwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. Mr. Jones (A.), ac yn Llanwnnen gan y Parch. J. H. Thomas (y Ficer), a'r Parch. D. Evans.

Y 26ain o Dachwedd, yn 68 oed, bu farw Sarah, annwyl ferch y diweddar Daniel a Dinah Jones, Drefach, ger Llanwnnen. Er na fu ei hiechyd yn gryf yn ddiweddar, eto byr iawn a fu ei chystudd olaf—prin diwrnod cyfan. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol un mab, un brawd, a nifer luosog o berthynasau agos eraill. A theimlir chwith-

tod o'i cholli gan bawb a'i hadnabyddai; oblegid yr oedd yn un na allai neb lai na'i pharchu. Benyw a garai'r cartref a'r aelwyd ydoedd, a chylch cyfyng oedd y cylch yr arferai droi ynddo; ond fe lanwodd ei chylch hyd yr ymylon. Diwydrwydd, serchogrwydd, caredigrwydd, llyfnedd tymer nas cythruddid gan unmath ar brofedigaeth, oeddynt nodweddau amlwg ei chymeriad; a gwelir ei heisiau yn fawr gan ei mab a'i brawd; a chydymdeimla pawb â hwy yn eu colled a'u galar. Ddydd Sadwrn dilynol y bu ei chynhebrwng i gladdfa'r teulu ym mynwent Eglwys Llanwnnen, a daeth nifer luosog iawn ynghyd fel arwydd o'u parch iddi. Yn y tŷ darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. S. Evans Bowen, pregethwyd gan y Parch. D. Evans, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A.; yn yr Eglwys gwasanaethwyd gan y Parch. J. H. Thomas, Ficer y Plwyf.

Nodion yr Eglwysi.

Y CYRDDAU CHWARTER.—Cynhaliwyd y Cyrddau Chwarter ar Dachwedd y 4 a'r 5, pan wasanaethwyd gan y Parchn. D. Conwil Evans a Ben Davies (Nos Fawrth), Miss Constance Harris a T. L. Jones (brynhawn Mercher) a E. O. Jenkins a T. Arthur Thomas (nos Fercher).

CYRDDAU DIOLCHGARWCH.—Brondeifi—Y Parch. W. Ll. Davies, Shiloh. Caeronnen—Y Parch. E. O. Jenkins.

CYRDDAU DIOLCHGARWCH.—Rhydygwin: Nos Fercher, Hydref y 29ain, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Brondeifi, i gynhulliad da. Capel Ciliau Aeron: Nos Wener, Tachwedd y 7fed, a phregethwyd gan y Parch. T. L. Jones, Nottage, i dyrfa dda a diolchgar am yr hyn a gawd eleni eto.

PONTYPRIDD.—Cyfarfu Mr. J. P. Evans, 34, North Street, Abercynon a damwain yn y Lofa beth amser yn ol a bu rhaid torri ymaith ei droed yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd. Da yw deall na ddioddefodd lawer o boen ac y mae yn ol gartref yn eithriadol o hapus ag ystyried popeth. Genedigol o Sir Aberteifi ydyw, a bu ef a'r diweddar Mr. David Lloyd, M.A. yn cynorthwyo Dr. Griffiths i drefnu darlithiau Undodaidd yn Ynysybwl a mannau eraill. Er yr amser hynny presenolodd ei hun mor aml ag y gallai ym Mhontypridd. Nid oedd ond anaml yn absennol ar Sul cyntaf y mis—Sul dosbarthu'r YMOFYNNYDD. Yr oedd wedi hen basio'r oedran y caniateir i lowyr weithio dan y ddaear ond oherwydd ei fedr a'i gysondeb ni sylwyd ar yr oedran. Y mae ei fam yn 96 mlwydd ac yn byw gyda'i merch—Mrs. Harris—ym Mhontypridd a darllenir YR YMOFYNNYDD iddi bob mis. Dymuna YR YMOFYNNYDD iddi hi ac iddo yntau hwyrddydd tawel ac oriau mor hapus ag sydd yn bosibl dan yr amgylchiadau.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Saboth, Hydref y 26ain, cynhaliodd eglwys yr Hen Dy Cwrdd ei chyfres flynyddol o wasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Gwasanaethwyd bore a hwyr yn Gymraeg gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul, ac yn y prynhawn yn Saesneg gan y gweinidog y Parch. E. R. Dennis. Cafwyd oedfaon llawn, ac hwylusdod yn y gwaith o fynegi diolch am roddion haelionus Duw ar hyd y flwyddyn. Traethai y ddau bregethwr fel rhai a chanddynt neges bendant. Ni chlywsom ond canmoliaeth gan bawb a fu yn y gwahanol oedfaon.

Nos Lun ganlynol, Hydref y 27ain, traddodwyd darlith gan y Parch. T. Arthur Thomas dan nawdd y

Gymdeithas Ddiwylliadol. Ei destun oedd "Dwy bennod yn hanes plwy Llandysul." Sicr yw fod hwylusdod y darlithydd yn mynegi yn bendant neges y cyfnod y siaradai amdano, cyfnod y dylasai pob Undodwr wybod amdano—cyfnod pan fu llawer o aberthu er sicrhau rhyddid barn, cyfnod pan ddisgleiriai y seren ddisglair honno Gwilym Marles mor danbaid nes trawsnewid y cyfan. Wrth glywed yr hanes am y cewri hyn a safodd mor gadarn dros y weledigaeth, teimlem ein hunain yn gwrido wrth feddwl pa mor llwfr y mae Undodiaid yr oes yma. Credwn weithiau y gwnelai ychydig o erledigaeth ein dihuno o'r cysgadrwydd y sydd wedi ein meddiannu. Darlith gampus oedd a theimlad pawb oedd y carent glywed rhagor eto. Llywyddwyd gan Mr. D. T. Williams, Llywydd y Gymdeithas.

Nos Fawrth, Tachwedd 11eg, cynhaliwyd Cyngerdd fawreddog dan nawdd eglwys yr Hen Dy Cwrdd ynghapel Carmel M.C. dan lywyddiaeth W. M. Llewelyn, Ysw., M.E., J.P., Bwllfa. Yr unawdwyr oedd Madame Bessie Evans-Rhys, Miss Gwladys Williams, dwy sydd wedi canu ar lwyfannau Llundain amryw weithiau, hefyd Mr. J. Maldwyn Thomas, Mr. W. J. Davies a Mr. Tom Jones, Adroddwr, y tri yn fuddugwyr cenedlaethol. Gwnaeth Mr. Gwilym T. Jones, Arweinydd Parti Brenhinol Treorci ei ran wrth y berdoneg. Cyngerdd fythgofiadwy fu hwn, a barn pawb o'r gynulleidfa oedd na chafwyd y fath wledd yn yr ardal yma os amser maith. Rhaid yw crybwyll fod datganiadau Miss Williams yn wefreiddiol. Ni welais y fath effaith a dylanwad gan unawdwr ar gynulleidfa erioed. Nid canu ar deall yn unig oedd, ond yr oedd ei holl enaid yn y gân. Buan y cawn gyfle i wrandaw arnynt eto yw ein gwir ddymuniad. Y Cynghorwr Tyssul Davies a fu yn offerynol i ddwyn y parti cerddgar yma i'n sylw, gan roi i ni gyfleu i gynnal cyngerdd er budd yr Hen Dy Cwrdd. Teimlwn yn ddiolchgar o galon iddo am yr hyn a wnaeth drosom. Rhaid datgan ein teimlad diolchgar dwysaf i eglwys Carmel am eu caredigrwydd yn rhoddi eu capel eang a hardd at ein gwasanaeth. Nid hwn yw'r tro cyntaf yr ydym wedi derbyn caredigrwydd oddiar eu llaw, a'u gair olaf o hyd yw, dewch eto? Diolch am y fath frawdgarwch. Mae diolch yn ddyledus hefyd i Mr. James Ivor Davies am yr hyn a wnaeth fel Ysgrifennydd y Cyngerdd.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn Ysgoldy'r Graig, nos Iau, Medi 11eg, daeth cynrychiolaeth dda i fyny o Urdd y Benywod Undodaidd, yn Abertawe. Cafwyd cyfarfod hwylus, ac ymdriniwyd yn dra helaeth ar materion o nodweddion, pwrpas a gwasanaeth yr Urdd, ac yn ddiweddaf oll, penderfynwyd, yn unfrydol i ffurfio cangen o'r Urdd yn y Graig a Gellionnen. Wele enwau'r Swyddogion: Trysoryddes, Mrs. S. J. Edwards; Ysgrifenyddes, Miss Ray Bowen; Llywyddes, Miss Ann Morgan. Ac y mae'r gangen leol wedi cyfarfod yn wythnosol oddiar adeg ei chychwyniad: ac y mae, a barnu oddiwrth y llafur a'r gwaith a wnaed eisoes, le cryf i gredu, y gall y gangen hon wneud gwasanaeth llesol i'r achos ac i'r lle. Felly, dymuna pawb lwydd mawr i *Urdd y Benywod Undodaidd* yn y Graig a Gellionnen.

Eto, yn yr un lle, nosau Mercher, Hydref laf a'r 15eg, bu y Parch. D. G. Rees yn darlithio ar y testunau "O Abertawe i Jerusalem," ac "O gylch Palesteina," a thrwy gymorth y darluniau trwy'r hud-lusern, yr hon oedd dan ofal Mr. Hopkin Jones, cafwyd dau gwrdd difyrus, diddorol ac adeiladol, a phawb, yn enwedig y plant, yn cael mwynhad mawr.

D.S.—Ymddengys marwgof Mrs. Davies, Caerfyrddin, ynghyd a Nodion yr Eglwysi, &c., yn y nesaf.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

		s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur	...	7	0
Lledr ... ... eto	...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto	...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

		s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	...	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	...	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.